MAPPA
Multi Agency Public Protection Arrangements

# Dyfed-Powys



# Adroddiad Blynyddol 2019/20

# Rhagarweiniad

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol MAPPA 2019/20 Bwrdd Rheoli Strategol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd Dyfed-Powys.

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn heriol dros ben yn dilyn lledaeniad pandemig byd-eang COVID-19. Mae wedi effeithio ar nifer fawr o sefydliadau ac wedi golygu bod y gwasanaethau a gynigir wedi gorfod newid. Fodd bynnag, yn ystod yr amseroedd digynsail hyn, nid yw effeithiolrwydd MAPPA wedi newid, ac mae hyn oherwydd ymrwymiad pob asiantaeth i sicrhau mai amddiffyn y cyhoedd yw ein prif flaenoriaeth er mwyn cadw ein cymunedau'n ddiogel.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith y mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi'i wneud i wella effeithiolrwydd MAPPA yn ystod y flwyddyn o ran rheoli troseddwyr treisgar a rhywiol er mwyn lleihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd. Mae hefyd yn gyfle i ni arddangos lefel ein hatebolrwydd i'r cymunedau lleol yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae amddiffyn y cyhoedd yn hanfodol i waith Awdurdodau Cyfrifol MAPPA (yr Heddlu, y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) ac mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch parhaus ein cymunedau. Caiff hyn ei gefnogi gan gyfraniad gwerthfawr y sefydliadau sydd â Dyletswydd i Gydweithredu â MAPPA ac asiantaethau eraill. Canran fechan o'r holl droseddau y mae'r pedwar heddlu ar draws Cymru yn delio â nhw yw troseddau rhywiol a threisgar. Fodd bynnag, mae'r troseddau hyn yn cael effaith ddinistriol ar y dioddefwyr a'r cymunedau. Gall aelodau'r cyhoedd fod yn dawel eu meddwl bod gwaith yn cael ei wneud 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos i amddiffyn y cymunedau yr ydym yn byw ynddynt.

Nid yw byth yn bosib cael gwared yn gyfan gwbl â'r holl risgiau a berir gan droseddwyr difrifol. Fodd bynnag, beth allwch ddisgwyl yw bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i leihau'r risg o niwed difrifol i'r cyhoedd gan droseddwyr hysbys a'n bod yn ceisio hyrwyddo adsefydlu. Felly, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nid yn unig gwybodaeth ystadegol am y rhai hynny sydd wedi cael eu rheoli dan MAPPA yn ystod y flwyddyn busnes ddiwethaf, ond mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n ymarferol yn lleol.

Mae cyflawniadau'r Bwrdd Rheoli Strategol yn adlewyrchiad o'r cyfraniadau sylweddol a wnaed gan yr holl asiantaethau sy'n rhan o MAPPA ar draws Dyfed-Powys, a hoffwn ddiolch i'n partneriaid sydd wedi cyfrannu i'r trefniadau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ehangder profiad ac arbenigedd aelodau MAPPA yn eithriadol, ac nid oes amheuaeth o ran ymrwymiad asiantaethau i gyflawni'r safonau uchaf. Hyderwn hefyd bod yr adroddiad hwn yn dangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein staff sy'n gwneud gwaith heriol a chymhleth sydd yn anaml iawn yn dod i sylw'r cyhoedd. Mae eu hymrwymiad yn hanfodol i sicrhau bod ein cymunedau yn aros yn ddiogel.

Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn i chi, gobeithiwn ei fod yn darparu mewnweledlad gwerthfawr i'n gwaith a'i fod yn tawelu eich meddwl mai amddiffyn y cyhoedd ac anghenion dioddefwyr yw ein prif flaenoriaethau o hyd.



Nicola Davies,
Cyfarwyddwr Rhanbarthol Cymru
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

**Neges gan y Prif Gwnstabl Mark Collins QPM**

*"Yn fy mlwyddyn olaf fel Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys, mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad 2019-20 Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA).*


*Rwy'n parhau i fod yr un mor ymrwymedig ag erioed i sicrhau bod Heddlu Dyfed Powys yn parhau i lwyr gefnogi proses MAPPA sydd wedi amlygu pwysigrwydd cydweithredu gyda'n partneriaid i reoli yn effeithiol y risgiau a berir gan droseddwyr treisgar a rhywiol.*

*Mae'r fframwaith cyfreithiol yn caniatáu inni gyflawni ein cyfrifoldebau statudol ac amddiffyn y cyhoedd mewn modd cydlynol, ac yna ffurfio cynlluniau rheoli risg perthnasol a priodol.*

*Mae rheoli troseddwyr treisgar a rhywiol yn parhau i fod yn faes busnes sy'n cynyddu o ran maint, ac rydym yn ymdrechu i wella ein hymateb i daclo troseddau a rhoi pwyslais ar ddod o hyd i gyfleoedd i reoli troseddwyr sy'n lleihau'r risg y byddant yn aildroseddu tra maent yn y gymuned. Eleni mae gorchmynion sifil wedi cael eu defnyddio'n effeithiol i osod cyfyngiadau ar droseddwyr sy'n hanfodol i'w cynorthwyo i droi eu cefnau ar droseddu.*

*Rwy'n falch bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'n gywir ymrwymiad parhaus pob asiantaeth sy'n rhan o MAPPA; maent yn ymdrechu'n daer i amddiffyn y cyhoedd ar yr un pryd â hyrwyddo cymunedau diogelach yn ardal Heddlu Dyfed Powys."*





**Mark Collins QPM**
**Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys**

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

Cyfres o drefniadau yw MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) i reoli'r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw a threisgar gwaethaf (troseddwyr cymwys am MAPPA) o dan ddarpariaethau adrannau 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Daw'r trefniadau â gwasanaethau'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd ac fe'i elwir yn Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd, Timau Troseddwyr Ifanc, Y Ganolfan Byd Gwaith a'r Awdurdodau Addysg a Thai Lleol.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Gynghorydd Lleyg i eistedd ar Fwrdd Rheoli Strategol (SMB) pob ardal MAPPA gydag uwch-gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol unigol a'r asiantaethau DTC.

Mae Cynghorwyr Lleyg yn aelodau o'r cyhoedd a benodir gan y Gweinidog, sydd heb unrhyw gysylltiad â'r maes o reoli troseddwyr MAPPA ac maent yn gweithredu fel arsyllwyr annibynnol ond gwybodus; gallant ofyn cwestiynau na fyddai staff proffesiynol yn gweithio yn y maes efallai'n meddwl eu gofyn. Maent hefyd yn cyfrannu eu dealltwriaeth a'u persbectif ar y gymuned leol (lle mae'n rhaid iddynt fod yn byw a bod â chysylltiadau cryf) i'r Bwrdd Rheoli Strategol.

## Sut mae MAPPA yn gweithio?

Mae troseddwyr cymwys am MAPPA yn cael eu hadnabod ac mae gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau fel sail i asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y bobl sy'n eu rheoli neu eu goruchwylio.

Dyna gyn belled ag y mae MAPPA yn mynd yn y rhan fwyaf o achosion. Ond, mewn rhai achosion, mae angen rheolaeth amlasiantaethol strwythuredig. Yn yr achosion hyn cynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd lle daw ymarferwyr o'r asiantaethau perthnasol ynghyd.

Mae tri chategori o droseddwyr cymwys am MAPPA:

- **Categori 1** – troseddwyr rhyw cofrestredig;
- **Categori 2** – troseddwyr treisgar yn bennaf sydd wedi eu dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar neu i orchymyn ysbyty; a
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategori 1 na 2 ond sy'n peri risg o niwed difrifol ar y pryd.

Mae tair lefel o reolaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle mae fwyaf eu hangen; fel arfer yn ymwneud â risg uwch o niwed difrifol.

- **Lefel 1** yw ble mae'r asiantaeth arweiniol yn rheoli'r troseddwr ac yn rhannu gwybodaeth ac yn cael cefnogaeth gan asiantaethau eraill yn ôl yr angen, ond heb unrhyw gyfarfodydd MAPPA ffurfiol;
- **Lefel 2** yw lle mae angen cynnal cyfarfodydd MAPPA ffurfiol i reoli'r troseddwr.
- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn am bresenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch yng nghyfarfodydd MAPPA.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System Technoleg Gwybodaeth genedlaethol yw hon i helpu i reoli troseddwyr sy'n peri risg ddifrifol o achosi niwed i'r cyhoedd. Mae defnyddio ViSOR yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau a throsglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fydd troseddwyr risg uchel yn symud, gan wella unrhyw fesurau amddiffyn y cyhoedd. Mae ViSOR yn golygu bod staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai yn gallu gweithio ar yr un system TG am y tro cyntaf, gan wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu.

Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein yn: [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

# Ystadegau MAPPA

| Troseddwyr cymwys am MAPPA ar 31 Mawrth 2020 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 509 | 114 | - | 623 |
| Lefel 2 | 5 | 2 | 3 | 10 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 514 | 116 | 3 | 633 |

| Troseddwyr cymwys am MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 19 | 24 | 15 | 58 |
| Lefel 3 | 6 | 2 | 1 | 9 |
| Cyfanswm | 25 | 26 | 16 | 67 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr rhyw cofrestredig (RSO) a gafodd rybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu** | 23 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr RSO lle penderfynwyd diddymu eu gofyniad hysbysu gydol oes drwy wneud cais** | 5 |

| Gorchmynion cyfyngu ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO), Gorchmynion SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor a Gorchmynion Hysbysu (NO) a osodwyd gan y llysoedd** | |
| SHPO | 46 |
| SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor | 0 |
| NO | 0 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu'n dilyn torri Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO)** | 1 |

| Troseddwyr Lefel 2 a 3 wedi eu dychwelyd i'r carchar | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri Amodau Trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 3 | 8 | 4 | 15 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 3 | 8 | 4 | 15 |
| **Torri Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw (SOPO)** | | | | |
| Lefel 2 | 1 | - | - | 1 |
| Lefel 3 | 2 | - | - | 2 |
| Cyfanswm | 3 | - | - | 3 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl** | 110 |

Cyfrifwyd y ffigwr hwn gan ddefnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2019: Un flwyddyn oed a rhyw ar gyfer Ardaloedd Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac eithrio rhai o dan ddeg oed.

# Sylwebaeth esboniadol ar y tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfansymiau'r troseddwyr cymwys am MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2020 (h.y. ciplun a roddir ganddynt). Mae gweddill y data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

**(a) Troseddwyr cymwys am MAPPA** – mae nifer o droseddwyr a ddiffinnir o dan y gyfraith fel rhai sy'n gymwys am reolaeth MAPPA, oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw a threisgar penodol neu oherwydd eu bod ar y pryd yn peri risg o niwed difrifol, er bod y rhan fwyaf yn cael eu rheoli o dan drefniadau Lefel 1 heb gyfarfodydd MAPPA ffurfiol. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys dim ond y troseddwyr cymwys am MAPPA sy'n byw yn y gymuned. Nid ydynt yn cynnwys rhai sydd yn y carchar neu dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSOs)** – sef y rhai sydd angen hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw, cyfeiriad a manylion personol eraill a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau sy'n digwydd wedyn (sef y "gofyniad hysbysu"). Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan yr heddlu. Gallant hefyd gael eu rheoli gan y gwasanaeth prawf neu'r gwasanaethau iechyd os ydynt yn destun trwydded neu orchymyn ysbyty. Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu'n drosedd a gall arwain at uchafswm cosb o bum mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar a ddedfrydwyd i garchar neu i'w cadw dan glo am 12 mis neu fwy, neu i'w cadw o dan orchymyn ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad oes gofyn iddynt gofrestru. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Tîm Troseddwyr Ifanc neu gan Wasanaethau Iechyd Meddwl.

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill** – troseddwyr nad ydynt yn disgyn i'r ddau gategori cymwys am MAPPA arall ond sy'n peri risg o niwed difrifol ar y pryd sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan ba un bynnag asiantaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb drostynt.

**(e) Torri trwydded** – bydd troseddwyr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned ar ôl cyfnod yn y carchar yn cael eu rhoi ar drwydded gydag amodau (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os torrir yr amodau hyn, cymerir camau tor-trwydded a gall y troseddwr gael ei alw'n ôl i'r carchar.

**(f) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor) -** mae Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchmynion SHPO interim wedi disodli'r hen Orchmynion Atal Troseddau Rhywiol. Eu pwrpas yw amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr a gafwyd yn euog o drosedd rhywiol neu dreisgar, ac sy'n peri risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd, drwy osod cyfyngiadau ar eu hymddygiad. Mae'r gorchymyn yn gofyn bod y troseddwr yn rhoi eu manylion i'r heddlu (yn unol â Rhan 2 Deddf 2003) drwy gydol cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon bod angen y gorchymyn i amddiffyn y cyhoedd (neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion bregus (neu unrhyw blant neu oedolion bregus penodol) dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais annibynnol gan brif swyddog neu'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA), rhaid i'r prif swyddog / NCA allu dangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y fath fodd ers ei gael yn euog fel bod angen y gorchymyn.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw pum mlynedd. Yr isafswm oed yw deg, sef oed cyfrifoldeb troseddol, ond pan fydd y diffynnydd o dan 18 oed, dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(g) Gorchymyn Hysbysu** – lle mae angen i droseddwyr rhyw a gafwyd yn euog dramor gofrestru â'r heddlu er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag y risg a gyflwynir ganddynt. Gall yr heddlu wneud cais i'r llys am orchymyn hysbysu ar gyfer troseddwyr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu dod i'r DU.

**(h) Gorchymyn Risg Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor) -** mae'r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) wedi disodli'r Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RoSHO) a gallai gael ei wneud ar gyfer unigolyn sydd heb ei gael yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar (nac unrhyw drosedd arall) ond sy'n peri risg o niwed rhywiol.

Gellir gwneud y SRO mewn llys ynadon ar gais yr heddlu neu'r NCA pan fydd unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae'r llys yn fodlon bod yr unigolyn yn peri risg o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu i blant neu oedolion bregus dramor.

Gall SRO wahardd unigolyn rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir yn y gorchymyn, gan gynnwys mynd dramor. Rhaid i unrhyw waharddiad fod yn angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu yng nghyswllt mynd dramor, amddiffyn plant neu oedolion bregus rhag niwed rhywiol.

Mae'n ofynnol i unigolyn gyda SRO hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw a'u cyfeiriad cartref o fewn tridiau i orchymyn gael ei wneud a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon o fewn tridiau.

Gall SRO bara am ddwy flynedd o leiaf ond heb unrhyw uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau ar fynd dramor sy'n gallu, lle mae'n berthnasol, bara am bum mlynedd ar y mwyaf (ond gall gael ei adnewyddu).

Mae'r safon droseddol o brawf yn parhau i fod yn berthnasol. Gall yr unigolyn sy'n destun y gorchymyn apelio yn ei erbyn a gall yr heddlu neu'r unigolyn dan sylw wneud cais i amrywio, adnewyddu neu ddiddymu'r gorchymyn.

Mae torri SRO yn drosedd a'r uchafswm cosb yw pum mlynedd yn y carchar. Pan fydd unigolyn yn torri ei SRO, bydd yn dod yn destun gofynion hysbysu llawn.

Mae unigolion gyda SRO erbyn hyn yn cael eu cofnodi ar VISOR fel Person Peryglus Posib (PDP).

**(i) Diddymu gofynion hysbysu gydol oes drwy wneud cais -** mae her gyfreithiol yn 2010 ac ymateb deddfwriaethol o ganlyniad yn golygu bod trefniadau bellach yn eu lle sy'n caniatáu i droseddwyr rhyw cymwys wneud cais am adolygiad o'u gofynion hysbysu. Ni fydd unigolion yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Gall troseddwyr cymwys gyflwyno cais i'r heddlu i adolygu eu gofynion hysbysu penagored. Bydd yr heddlu yn adolygu'r cais ac yn penderfynu a ddylid dileu'r gofynion hysbysu ai peidio. Uwcharolygydd fydd yn gwneud y penderfyniad hwn. Bydd y rhai sy'n parhau i beri risg sylweddol yn aros ar y gofrestr trwy gydol eu hoes, os bydd angen.

Bydd unigolion gyda gofynion hysbysu amhenodol ond yn dod yn gymwys i ofyn am adolygiad ar ôl bod yn destun gofynion hysbysu amhenodol am o leiaf 15 mlynedd yn achos oedolion, ac 8 mlynedd yn achos troseddwyr ifanc. Daeth hyn i rym ar 1 Medi 2012 ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion.

# Tudalen leol

## Emma Ackland, Prif Gwnstabl Cynorthwyol a Chadeirydd SMB

Mae Bwrdd Rheoli Strategol (SMB) MAPPA Dyfed Powys yn gyfrifol am oruchwylio proses MAPPA o fewn ardal Heddlu Dyfed Powys ar lefel strategol.

Mae gan yr Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu ddyletswydd statudol i gydweithio'n agos â'i gilydd i reoli'n effeithiol troseddwyr rhywiol a threisgar i'w cefnogi i adsefydlu a diogelu ein cymunedau rhag dioddef rhagor o niwed. Ers ymuno â Heddlu Dyfed Powys ym mis Mai 2020, ac yna chymryd drosodd cadeiryddiaeth y SMB, rwyf wedi gwerthfawrogi ymrwymiad a chymhelliant yr holl aelodau a'u hymdrechion i gydweithio i ddarparu gwasanaethau hanfodol.

Mae'r cynghorwyr lleyg yn parhau i graffu ar y SMB yn annibynnol a'i herio yn briodol yn ôl yr angen. Rwy'n ddiolchgar am hyn gan ei fod yn ein galluogi i barhau i ddatblygu ein dulliau gweithredu a fydd wedyn yn cryfhau effeithiolrwydd y bartneriaeth.

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn heriol; mae pandemig Covid-19 wedi profi'r holl asiantaethau partner mewn amryw o ffyrdd, ac mae nifer o bobl wedi gorfod bod yn hyblyg a dod o hyd i ffyrdd newydd o ddatrys problemau gyda'i gilydd, a hynny yn rhithiol. Rwy'n edmygu proffesiynoldeb, brwdfrydedd ac ymrwymiad fy nghyd-aelodau o'r SMB a'u harweinyddion strategol, tactegol a gweithredol unigol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr am eich ymrwymiad a'ch ymgysylltiad parhaus â phroses MAPPA yn ardal Dyfed Powys.

## Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS):

### Amanda Corrigan, Llywodraethwr - CEM Abertawe
### Christine Harley, Pennaeth Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf - Dyfed-Powys

Mae amddiffyn y cyhoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (HMPPS) yn ardal Dyfed Powys, ac mae bod yn rhan o broses MAPPA ac ymgysylltu â'r Bwrdd Rheoli Strategol yn hynod bwysig. Mae HMPPS wedi elwa o waith partneriaeth da gydag asiantaethau eraill wrth reoli troseddwyr.

Mae hyn i'w weld yn ymrwymiad partneriaid i ymuno â chyfarfodydd, sydd weithiau yn cael eu trefnu ar fyr rybudd, i sicrhau bod gennym gynlluniau rheoli risg cadarn mewn lle.

O ganlyniad i COVID-19 mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol wedi gorfod addasu i gael eu cynnal o bell, ond nid yw hyn wedi amharu ar effeithiolrwydd y gwaith o reoli troseddwyr MAPPA. Rydym wedi elwa o brosesau Sicrhau Ansawdd MAPPA a chyfarfodydd Cadeiryddion MAPPA i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd i drafod materion gweithredol ac i wella'r arferion gwaith. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) wedi rheoli'r trawsnewidiad bod troseddwyr bellach yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ac mae'r staff wedi elwa o hyfforddiant a chefnogaeth i allu rheoli achosion o'r math hwn. Hefyd, rydym wedi parhau i weithio gyda'n cydweithwyr yn y gwasanaeth carchardai, ac mae model OMIC wedi parhau i fodoli.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod Rheolwyr Rheoli Troseddwyr yn y Carchar (POMs) wedi cael briff gan MAPPA er mwyn iddynt ddeall yn well sut i gefnogi a rheoli troseddwyr rhyw a threisgar yn ystod eu cyfnod yn y carchar a'u trosglwyddiad yn ôl i'r gymuned. Mae hyn hefyd yn cefnogi'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ailsefydlu troseddwyr gan fod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y gymuned a'r Uned Rheoli Troseddwyr yn y carchar. O ganlyniad i fodolaeth OMIC mae yna well perthnasau rhwng y carcharorion a'u gweithwyr allweddol o fewn y carchardai. Mae hyn i gyd wedi sicrhau bod cyfraniad HMPPS i MAPPA ardal Dyfed Powys wedi bod yn well.

## Jayne Butler, Ditectif Uwcharolygydd, Heddlu Dyfed Powys

Yn ystod 2020 mi wnaethom sefydlu Uned Amddiffyn y Cyhoedd ym mhencadlys Heddlu Dyfed Powys. Roedd yn gyfle i leoli tîm canolog o staff arbenigol o'r Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol mewn un lleoliad. Mae'r fframwaith hwn yn darparu llywodraethiant a chyd-drefniant i MAPPA a phob proses rheoli troseddwyr arall ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod dull gweithredu effeithiol a chydlynol ar waith wrth adnabod a rheoli risg a llwybrau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth a diogelu unigolion. Mae'r Uned yn ddolen i'r Heddlu a'r timau Prawf sydd wedi'u lleoli ar draws ardal yr Heddlu sy'n rheoli troseddwyr o ddydd i ddydd.

Mae'r gwaith a wnaed ar gyfer Datganiad Rheoli Blynyddol yr Heddlu yn rhagweld y bydd cynnydd parhaus tuag at i fyny yn nifer y troseddwyr a fydd yn cael eu heuogfarnu am gyflawni troseddau rhywiol, ac felly mae'n debyg y bydd cynnydd parhaus tebyg yn y nifer o droseddwyr a rheolir drwy strwythurau MAPPA. O ganlyniad, bydd adnoddau timau rheoli troseddwyr yn y dyfodol yn cael eu cynyddu i sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i ymateb i'r galw cynyddol.

Mae'r swyddogion troseddwyr rhywiol a threisgar (MOSAVOs) yn parhau i gael eu cefnogi'n agos gan dimau plismona eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Ymchwilwyr Troseddau Seiber a Chyfryngau Digidol, sy'n gallu monitro a chraffu ar ddefnydd troseddwyr o delathrebu a'r rhyngrwyd. Mae cyllid ychwanegol wedi'i gadarnhau a bydd hyn yn caniatáu mwy o gapasiti a gallu i adnabod troseddau ar-lein yn y cyfnod sydd i ddod.

Mae timau plismona lleol pob sir yn cefnogi'r dasg o reoli troseddwyr drwy gynorthwyo MOSAVOs gyda'u gwaith ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gorchmynion atal, tra bod timau plismona'r gymdogaeth yn chwarae rhan bwysig yn cefnogi gwaith staff arbenigol o bob asiantaeth sy'n rhan o MAPPA. Mae hyn wedi arwain at nifer o ganlyniadau llwyddiannus, a hynny o ran atal troseddwyr rhag cyflawni trosedd arall a hefyd adnabod a thaclo toriadau i orchmynion atal a gofynion hysbysu.

Mae Heddlu Dyfed Powys yn parhau i weithio gyda'r partneriaid ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod MAPPA yn gweithredu'n effeithiol i leihau'r risgiau a berir gan droseddwyr yn y gymuned.

## Ymgynghorwyr Lleyg - SMB MAPPA Dyfed Powys

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i ychwanegu gwerth a bod yn gyfaill critigol ym mhroses MAPPA drwy:

- Fynychu cyfarfodydd SMB MAPPA, darparu adborth ar ein profiadau, cymryd rhan mewn trafodaethau a herio pan fo angen
- Mynychu cyfarfodydd MAPPA Lefel 1, 2 a 3 ar draws y rhanbarth, herio pan fo angen a darparu adborth i'r Cadeiryddion pan ofynnwyd inni wneud hynny
- Parhau i gymryd rhan mewn archwiliadau ffeiliau achos
- Cynorthwyo i adolygu dogfennaeth MAPPA er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas
- Adnabod yr angen i ystyried ail-edrych ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i gasglu tystiolaeth yn well am effaith trefniadau MAPPA ar reoli risg troseddwyr MAPPA a diogelwch dioddefwyr, ac yna cyfrannu tuag at adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol
- Manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu ag Ymgynghorwyr Lleyg MAPPA eraill yng Nghymru a Lloegr er mwyn cael persbectif cenedlaethol ehangach o drefniadau MAPPA
- Rhannu esiamplau o arferion da o ranbarthau eraill a rhoi adborth i'r SMB er mwyn i'r asiantaethau allu ei ystyried.

Mae wedi dod yn amlwg mai'r her fwyaf ym mhob rhan o'r rhanbarth yw argaeledd, a'r gallu i sicrhau llety addas ar gyfer troseddwyr:

- Mae diffyg cyffredinol o lety mewn ardaloedd addas yn y sector tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat
- Mae diffyg llety â chymorth arbenigol sy'n cynnig cefnogaeth ychwanegol ar lefel isel
- Mae yna nifer annigonol o lety preswyl sy'n cynnig lefel uwch o gefnogaeth
- Mae digartrefedd yn effeithio ar y gallu i gynnal cynlluniau rheoli risg troseddwyr

- Effaith polisïau dyrannu llety gwahanol a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol unigol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar geisio hwyluso symud troseddwyr o fewn a rhwng ardaloedd
- Y nifer cynyddol o gyfarfodydd MAPPA Lefel 3 a Lefel 2 a gynhelir o ganlyniad i anawsterau gyda gofynion llety.

Croesawir y gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel genedlaethol i lunio strategaeth llety i geisio mynd i'r afael â'r problemau llety, ond mae'n bryderus bod y gwaith hwn yn annhebygol o ddarparu atebion i'r broblem yn y tymor byr.

Dim ond dechrau ymddangos oedd yr heriau o weithio gydag asiantaethau eraill a chynnal Cynlluniau Rheoli Risg llym yn sgil pandemig Covid-19 ar ddiwedd cyfnod 2019/20, fodd bynnag roedd modd gweld yn barod bod asiantaethau'n gorfod addasu'n gyflym i leihau ymyriadau i wasanaethau. Roedd yn galonogol gweld bod systemau'n cael eu hadolygu yn y camau cyntaf hyn i leihau'r risg i gymunedau.

Nicola Rabjohns a Lyn Hambidge, Ymgynghorwyr Lleyg MAPPA

## Cydlynydd MAPPA Dyfed-Powys

Hoffwn ddiolch i'r Ymgynghorwyr Lleyg, i'n cydweithwyr yn yr awdurdodau cyfrifol (gan gynnwys Cadeiryddion a Gweinyddwyr MAPPA), asiantaethau dyletswydd i gydweithredu ac eraill sy'n gysylltiedig â MAPPA am eu cefnogaeth i sicrhau bod y broses wedi parhau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon yn ystod cyfnod cynnar pandemig COVID-19, a'r newidiadau cyflym yr oedd rhaid eu gwneud o ganlyniad i hynny.

Manylion cyswllt Cydlynydd MAPPA Dyfed Powys:
Rebecca Lewis
Cydlynydd MAPPA (Dyfed-Powys)
Uned MAPPA
Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys
Llangynnwr
Sir Gaerfyrddin
MAPPA@dyfed-powys.pnn.police.uk

**Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein yn:**

**[www.gov.uk](http://www.gov.uk)**